


# WELSH PROMISE ADDEWID CYMRAEG





## Gweithredu

Mae Y Bont yn elusen gofal plant arbenigol yng Nghymru sy'n darparu darpariaeth gynhwysol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant All-Ysgol i blant ag anghenion cymhleth, anghenion ychwanegol ac anabledau. Fel yr unig leoliad arbenigol o'i fath yng Nghymru, mae Y Bont yn cefnogi plant sydd gan ystod eang o anghenion meddygol a datblygiadol, gan sicrhau eu bod yn gallu cyrchu yr un cyfleoedd ar gyfer dysgu, rhyngweithio cymdeithasol a datblygiad â'u cyfoedion mewn lleoliadau prif ffrwd. Ochr yn ochr â gofal plant arbenigol, mae Y Bont yn darparu cymorth hanfodol i deuluoedd sy'n llywio diagnosis, anghenion meddygol sy'n newid, a phontio i addysg.

Ymunodd Y Bont ag yr Addewid Cymraeg ar lefel Efydd yn 2025 fel rhan o'u hymrwymiad i ddatblygu'r Gymraeg yn eu darpariaeth a gweithio tuag at gyflwyno'r Cynnig Gweithredol gyda Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), gan sicrhau bod teuluoedd yn gallu cyrchu gwasanaethau cynhwysol sy'n adlewyrchu anghenion ieithyddol a diwylliannol Cymru.

Cymerodd Y Bont ymagwedd strategol a myfyriol at ddatblygu darpariaeth Gymraeg. Dechreuodd y daith gyda hunan-asesiad manwl yn adolygu; cyfathrebu, gweithgareddau, hyder staff, a'r amgylchedd dysgu. Arweiniodd hyn at Gynllun Datblygu'r Gymraeg strwythuredig gyda thargedau clir a chyraeddadwy.

Roedd y camau allweddol yn cynnwys ymgorffori Cymraeg achlysurol mewn trefn ddyddiol, cyflwyno arwyddion dwyieithog, a sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy ar draws y lleoliad. Cafodd staff eu cefnogi drwy offer ymarferol, megis laniards Cymraeg, a chyfleoedd hyfforddi i feithrin hyder a chysondeb.

Cafodd y Gymraeg hefyd ei hymgorffori mewn gweithgareddau drwy dechnegau syml megis ailadrodd geiriau allweddol (e.e. lliwiau a rhifau) yn y ddwy iaith a defnyddio'r "dull brechdan" i gefnogi dealltwriaeth. Rhoddwyd blaenoriaeth i ymgysylltu diwylliannol drwy dathliadau megis Dydd Gŵyl Dewi, gan gyfuno dysgu iaith â phrofiadau ymarferol.

## Action

Y Bont is a specialist childcare charity in Wales providing inclusive Early Years and Out of School provision for children with complex needs, additional needs, and disabilities. As the only specialist setting of its kind in Wales, Y Bont supports children with a wide range of medical and developmental needs, ensuring they can access the same opportunities for learning, social interaction, and development as their mainstream peers. Alongside specialist childcare, Y Bont provides vital support to families navigating diagnosis, changing medical needs, and transitions into education.

Y Bont joined the Welsh Promise at Bronze level in 2025 as part of their commitment to develop Welsh language in their provision and work towards delivering the Active Offer with Care Inspectorate Wales (CIW), ensuring families can access inclusive services that reflect the linguistic and cultural needs of Wales.

Y Bont took a strategic and reflective approach to developing Welsh language provision. The journey began with a detailed self-assessment reviewing; communication, activities, staff confidence, and the learning environment. This informed a structured Welsh Language Development Plan with clear, achievable targets.

Key actions included embedding incidental Welsh into daily routines, introducing bilingual signage, and ensuring Welsh was visible and audible across the setting. Staff were supported through practical tools, such as Welsh-language lanyards, and training opportunities to build confidence and consistency.

Welsh was also incorporated into activities through simple techniques such as repeating key words (e.g., colours and numbers) in both languages and using the "sandwich method" to support understanding. Cultural engagement was prioritised through celebrations such as St David's Day, combining language learning with hands-on experiences.



## Tystiolaeth

Casglwyd tystiolaeth o effaith drwy arsylwadau, trafodaethau staff, ac adborth gan ddysgwyr. Nododd yr hunanasesiad gryfderau presennol, megis y defnydd o ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac arddangosiadau gweledol, ochr yn ochr â meysydd i'w datblygu, yn enwedig hyder staff ac ehangu'r defnydd o'r iaith y tu hwnt i amlygiad achlysurol.

Dangosir gweithredu ymarferol drwy gyfarchion dwyieithog, arwyddion gweladwy, a gweithgareddau strwythuredig sy'n ymgorffori'r Gymraeg. Sicrhaodd strategaethau cynhwysol hygyrchedd i bob plentyn, gan gynnwys dysgwyr di-eiriau, drwy giwiau gweledol ac ailadrodd.

Mae dogfennaeth, gan gynnwys deunyddiau cyfathrebu dwyieithog ac adolygiadau polisi gan aelodau bwrdd sy'n siarad Cymraeg, yn rhoi tystiolaeth bellach o ymrwymiad i hygyrchedd a chysondeb. Mae systemau monitro ac adolygiadau rheolaidd yn sicrhau gwerthusiad parhaus a gwelliant parhaus.

## Effaith

Mae'r fenter wedi arwain at welliannau ystyrion o ran amlygiad i'r Gymraeg a hyder. Mae plant yn dod yn fwyfwy cyfarwydd â chyfarchion a geirfa Gymraeg, gan ymateb ar lafar ac yn ddi-eiriau. Mae amlygiad rheolaidd drwy chwarae a threfn ddyddiol wedi cryfhau eu dealltwriaeth mewn ffordd naturiol a deniadol.

Mae hyder staff wedi gwella drwy gymorth strwythuredig ac offer ymarferol, gan alluogi defnydd mwy cyson o'r Gymraeg ar draws y lleoliad. Mae'r amgylchedd bellach yn adlewyrchu ethos dwyieithog clir, gan atgyfnerthu dysgu iaith drwy ddulliau gweledol a chlywedol.

Yn bwysig, mae'r dull yn gynhwysol, gan sicrhau bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan waeth beth fo'u gallu cyfathrebu. Mae gweithgareddau diwylliannol hefyd wedi gwella ymwybyddiaeth plant o hunaniaeth Gymreig, gan gryfhau cysylltiadau â theuluoedd a'r gymuned ehangach.

Ar y cyfan, mae Y Bont wedi sefydlu sylfaen gref ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gynaliadwy, gan ddangos ymrwymiad rhagweithiol i ddwyieithrwydd a gwelliant parhaus.

## Evidence

Evidence of impact was gathered through observations, staff discussions, and learner feedback. The self-assessment identified existing strengths, such as the use of basic Welsh phrases and visual displays, alongside areas for growth, particularly staff confidence and extending language use beyond incidental exposure.

Practical implementation is demonstrated through bilingual greetings, visible signage, and structured activities incorporating Welsh. Inclusive strategies ensured accessibility for all children, including non-verbal learners, through visual prompts and repetition.

Documentation, including bilingual communication materials and policy reviews by Welsh-speaking board members, further evidences a commitment to accessibility and consistency. Monitoring systems and regular reviews ensure ongoing evaluation and continuous improvement.

## Impact

The initiative has led to meaningful improvements in both language exposure and confidence. Children are increasingly familiar with Welsh greetings and vocabulary, responding both verbally and non-verbally. Regular exposure through play and routine has strengthened their understanding in a natural, engaging way.

Staff confidence has improved through structured support and practical tools, enabling more consistent use of Welsh across the setting. The environment now reflects a clear bilingual ethos, reinforcing language learning through both visual and auditory means.

Importantly, the approach is inclusive, ensuring all children can participate regardless of communication ability. Cultural activities have also enhanced children's awareness of Welsh identity, strengthening connections with families and the wider community.

Overall, Y Bont has established a strong foundation for sustained Welsh language development, demonstrating a proactive commitment to bilingualism and continuous improvement.



Cysylltwch â ni, er mwyn ddarganfod mwy am y gefnogaeth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei gynnis i'ch clwb.

[www.clybiauplantcymru.org](http://www.clybiauplantcymru.org)  
[info@clybiauplantcymru.org](mailto:info@clybiauplantcymru.org)  
029 2074 1000  
Facebook  
Twitter  
Instagram

Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs can offer your club.

[www.clybiauplantcymru.org](http://www.clybiauplantcymru.org)  
[info@clybiauplantcymru.org](mailto:info@clybiauplantcymru.org)  
029 2074 1000  
Facebook  
Twitter  
Instagram



[www.clybiauplantcymru.org](http://www.clybiauplantcymru.org)



<https://earlyyears.wales/>



<https://www.meithrin.cymru/>



<https://www.ndna.org.uk/>



[www.cwllwm.org.uk](http://www.cwllwm.org.uk)



<https://www.pacey.org.uk/>



**Clybiau Plant Cymru**

**Kids' Clubs**

since 2001

Cwmni cyfyngedig drwy warrant / Company limited by guarantee 4296436

Elusen Gofrestredig / Registered charity 1093260

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd, CF14 5UW

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff, CF14 5UW